



YSGOL I.D. HOOSON

30.04.21

NOSWEITHIAU RHIENI

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Hoffem roi y cyfle i chi drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athrawon dosbarth yn ystod yr wythnos sydd yn cychwyn ar y 10fed o Fai. Cynhelir y nosweithiau o 3.30 hyd at 5.30. O ganlyniad i resymau iechyd a diogelwch yn ymwneud a Covid-19, nid ydym mewn sefyllfa i gynnal y nosweithiau hyn yn yr ysgol yn y drefn arferol, ac felly ni fydd yn bosib i gynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb gyda'r athro/awes yn yr ysgol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i roi cynnig i chi drafod gyda'r athro drwy gyfrwng cyswllt dros y cyfrifiadur gan ddefnyddio adnodd 'Bookings'. Mae'r adnodd hwn yn rhan o lwyfan dysgu Hwb Llywodraeth Cymru y mae eich plentyn yn barod yn gwneud defnydd ohono. A fydddech cystal â chymryd sylw gofalus o'r gofynion ynglŷn â'r trefniadau fel a ganlyn:

Bydd cyfnod o 10 munud ar gael i chi i drafod gyda'r athro/awes. Mae'r amserlen yn un gymharol dyn, ac felly ni fydd yn bosib i fynd dros yr amseroedd penodol y byddwch wedi ei dewis ar gyfer y cyfarfod. I helpu'r trefniadau, ac er mwyn gwneud y mwyaf o'r amseroedd fydd ar gael, bydd disgwyl i chi ddewis lleoliad tawel ar gyfer y cyfarfod, ble na fydd sŵn cefndir neu eraill, yn oedolion neu blant, yn tarfu ar y drafodaeth. Bydd yn gyfle i'r athro/awes gyflwyno ychydig o wybodaeth i chi ynglŷn â chynnydd eich plentyn dros y flwyddyn. Bydd cyfle i chi holi'r athro/awes am agwedd o gynnydd eich plentyn.

Mae'r drefn yma ar gyfer nosweithiau rhieni yn un newydd i bawb, ac felly rydym yn gofyn am gydweithrediad pawb gyda'r trefniadau. Os y bydd rheswm yn atal cyarfod i fedru cael ei drefnu, neyanhawsterau yn codi wrth geisio trefnu amser neu yn ystod y cyfarfod, yna bydd yr athro/awes ddosbarth yn trefnu i gysylltu gyda chi dros y ffôn yn ystod yr wythnos syn dilyn.

Er mwyn trefnu noson gydag athro/awes ddosbarth eich plentyn, bydd angen i chi ddilyn y linc isod, dewis yr athro/awes ac yna dewis amser sydd ar gael. Byddwch yn sylwi fod mwy na un noson ar gael i chi. Bydd yr athrawon yn eich derbyn i mewn i'r cyfarfod pan y byddant yn barod. Gallwch ddewis un amser yn unig ar gyfer eich cyfarfod.

<https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgolIDHooson1@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/>

Ar gyfer dosbarth Meithrin, blwyddyn 1 a 2, a fydddech cystal â dewis un o'r nosweithiau ar gyfer eich cyfarfod erbyn **dydd Iau Mai 6ed**.

Ar gyfer dosbarth Derbyn, blynyddoedd 3,4,5 a 6, a fydddech cystal â dewis un o'r nosweithiau ar gyfer eich cyfarfod erbyn **dydd Iau Mai 13eg**.

Ar y noson, bydd yr athro/awes yn rhoi mynediad i chi i'r cyfarfod ar yr amseroedd penodol.

Amserlen Nosweithiau Rhieni

Dosbarthiadau / Classes	Dyddiad ac Amser / Date and Time (3.30-5.30)
Derbyn / Reception	17.05.21 / 18.05.21 / 19.05.21
Blwyddyn 1 a 2 / Years 1 and 2	10.05.21 / 11.05.21 / 12.05.21
Blwyddyn 3/4/5 a 6 / Years 3/4/5 and 6	17.05.21 / 18.05.21 / 19.05.21

Diolch,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth